

## **Meddygon, deintyddion a nyrsys yng Nghymru oedd yn ffoaduriaid Iddewig**

### **Nodiadau i Athrawon**

Yn y wers hon, bydd myfyrwyr yn dysgu am feddygon, deintyddion a nyrsys Iddewig a ddaeth i'r DU yn y 1930au, i ffoi rhag erledigaeth y Natsïaid.

### **Cysylltiadau â'r cwricwlwm**

Cyfnod Allweddol 4.

Hanes, Sgiliau Llythrennedd, Cymraeg

## Cynllun Gwers

### AMCANION DYSGU

- Dysgu am erledigaeth Iddewon yn y gwasanaethau meddygol yn yr Almaen Natsïaidd.
- Dysgu am yr anawsterau a gafodd meddygon, deintyddion a nyrsys Iddewig fel ffoaduriaid yn y DU.
- Trafod anawsterau ailhyfforddi mewn amgylchedd newydd ac ystyried cyrhaeddiad addysgol mewn gwahanol wledydd.

### OFFER GOFYNNOL

- Copïau o daflen waith myfyrwyr.
- Trawsgrifiad o'r clip sain.<sup>1</sup>

### DECHREUAD

Ar y bwrdd, dangoswch lun o Paul Bosse, tad y ffoadur Kate Bosse-Griffiths, yn cyfarfod Hitler yn Wittenberg, yr Almaen, ym 1935.

Roedd gwraig Paul, Käthe, yn Iddewes, ac roedd amharodrzydd Paul i'w hysgaru yn golygu iddo gael ei ddiswyddo fel prif lawfeddyg yn yr ysbyty lleol.



[Paul Bosse \(yn sefyll, chwith\) yn cyfarfod Hitler yn Wittenberg, yr Almaen, ym 1935. Tynnwyd y ffotograff hwn ar ôl ffrwydrad mewn ffatri arfau gerllaw. Er gwaethaf ei holl waith, cafodd Paul ei ddiswyddo chwe mis yn ddiweddarach.](#)

<sup>1</sup> Rydym wedi ychwanegu trawsgrifiad y clip fideo, y gallwch ddewis ei rannu gyda'ch myfyrwyr os ydych chi'n meddwl y byddai'n ddefnyddiol. Mae'r trawsgrifiad yn Gymraeg a Saesneg tra bod y clip yn Saesneg yn unig.

*Llun trwy garedigrwydd Heini Gruffudd.*

Daeth y Natsïaid i rym ym mis Ionawr 1933 ac yn fuan dechreuon osod cyfyngiadau ar Iddewon yn y proffesiwn meddygol; erbyn mis Ebrill, roedd meddygon Iddewig wedi'u heithrio o'r rhaglen yswiriant iechyd cyhoeddus ac erbyn yr haf cawsant gyfarwyddyd i beidio â chydweithio â'u cydweithwyr nad oeddent yn Iddewon.

O fewn blwyddyn, cafodd dros 2,600 o feddygon Iddewig eu diswyddo ac ar ôl Deddfau Nuremberg 1935, gwaharddwyd Iddewon rhag cymhwyso fel meddygon neu ddeintyddion newydd. Ym mis Gorffennaf 1938, gwaharddwyd nhw rhag cael cleifion 'Aryaidd' ac ym mis Medi 1938 cawsant eu diarddel o'r proffesiwn yn llwyr; a hwythau'n methu gweithio, penderfynodd llawer ymfudo.

Gan weithio mewn parau neu'n unigol, yn gyntaf dylai myfyrwyr ddarllen gwybodaeth am erledigaeth meddygon a deintyddion Iddewig gan y Natsïaid yn y 1930au ac yna trefnu'r digwyddiadau sy'n ymwneud â'r erledigaeth mewn trefn gronolegol (**Tasg 1**):

Yna, dangoswch drefn gywir y digwyddiadau ar y bwrdd:

1. Natsïaid yn dod i rym (Ionawr 1933).
2. Meddygon Iddewig yn cael eu diarddel o'r rhaglen yswiriant iechyd cyhoeddus (Ebrill 1933).
3. Cydweithrediad rhwng meddygon Iddewig a rhai nad oedd yn Iddewig yn cael ei wahardd (Gorffennaf 1933).
4. Iddewon yn cael eu gwahardd rhag cymhwyso fel meddygon neu ddeintyddion newydd (Medi 1935).
5. Meddygon Iddewig yn cael eu gwahardd rhag cael cleifion 'Aryaidd' (Gorffennaf 1938).
6. Meddygon/deintyddion Iddewig yn cael eu diarddel o'r proffesiwn (Medi 1938).

#### DATBLYGIAD

Yn gyntaf, gofynnwch i'r myfyrwyr ddarllen bywgraffiad byr o Josephine Bruegel, ffoadur Iddewig o Tsiecoslofacia (taflen waith myfyrwyr) a gwranddo ar y [clip sain, lle mae'n sôn am gymhwyso ar gyfer ei 'MD Tsiecoslofacia' tra ym Mhrydain.](#)

Gan weithio mewn parau neu'n unigol, dylai myfyrwyr ateb y cwestiynau canlynol (**Tasg 2**):

- Pam fod llywodraeth Tsiecoslofacia wedi'i lleoli yn Llundain ym 1941?
- Pam y gallai Josephine fod eisiau i'w gradd fod yn ddilys yn Tsiecoslofacia?
- A fyddech chi eisiau dychwelyd i'ch mamwlad pe baech chi'n ffoadur?

#### PRIF

Amcangyfrifir bod 1,200 o feddygon, Iddewon yn bennaf, wedi cyrraedd Prydain o'r Almaen ac Awstria rhwng 1933 a 1939. Fodd bynnag, oherwydd amharoddrwydd y Gymdeithas Feddygol Brydeinig, y Cyngor Nyrsio Cyffredinol a Chymdeithas Ddeintyddol Prydain i gydnabod eu cymwysterau, bu'n rhaid iddynt astudio a phasio gradd arholiad Prydeinig pellach.

Sefydlodd Ysgol Feddygaeth Genedlaethol Cymru ‘gynllun hyfforddi arbennig ar gyfer ffoaduriaid’ a chofrestrwyd 12 o fyfyrwyr Almaenig yma rhwng 1933 a 1934; ym 1938-39, ymunodd saith o Awstria a 15 o Tsiecoslofacia â nhw.

Un o’r rhain oedd Alfred Feiner, ffoadur Iddewig o Fienna, a fu’n gweithio fel meddyg teulu ym Mhontypridd rhwng 1941 a 1977. Bu gwraig Alfred, Herta, yn gweithio fel cogydd a gwraig cadw tŷ er mwyn galluogi Albert i gwblhau ei gymwysterau. Yn ôl ysgrif goffa Herta, bu’n rhaid iddyn nhw oresgyn “llawer iawn o amheuaeth a gelyniaeth” ym Mhontypridd, ond yn y pen draw “ennill parch ac edmygedd y boblogaeth leol”.<sup>2</sup>

Roedd deintyddion o siroedd eraill yn cael eu rheoli’n llymach fyth, ond, yn dilyn adolygiad ym 1938, llaciwyd y rheolau oedd yn eu cyfyngu’n ddifrifol rhag ymarfer yn y DU a chaniatawyd i 40 o ddeintyddion a oedd yn ffoaduriaid o Awstria ddod i mewn i’r DU; un o’r rhain oedd Jacques Kurer, a ailhyfforddodd ym Manceinion yn 1939 ac agor practis yno. Ym 1941, bomiwyd cartref y teulu, a chawsant eu symud i Landudno, lle agorodd Jacques bractis arall, yr oedd ei safon uchel yn boblogaidd ymhlith y boblogaeth leol. Symudodd y teulu yn ôl i Fanceinion yn 1944.



[Jacques Kurer.](#)

*Llun trwy garedigrwydd Peter Kurer.*

Yn gyntaf, gofynnwch i’r myfyrwyr ddarllen am yr anawsterau a gafodd y meddygon a’r deintyddion Iddewig fel ffoaduriaid yn y DU (**Tasg 3**).

---

<sup>2</sup> ‘Ysgrif goffa: Herta Feiner’, yn *AJR Information*, Mawrth 1977, t. 12 [https://ajr.org.uk/wp-content/uploads/2018/02/1977\\_march.pdf](https://ajr.org.uk/wp-content/uploads/2018/02/1977_march.pdf) [cyrchwyd 28 Gorffennaf 2022].

Yna, gan weithio mewn parau neu grwpiau bach, dylai'r myfyrwyr ystyried a thrafod y cwestiynau canlynol:

- Pa anawsterau a gafodd meddygon, deintyddion a nyrsys Iddewig fel ffoaduriaid yn y DU?
- Pa anawsterau y gallai ffoaduriaid eu hwynebu wrth ailhyfforddi?

#### SESIWN LAWN

Gan weithio mewn grwpiau bach neu barau, gofynnwch i'r myfyrwyr ystyried pam mae gan wahanol wledydd gymwysterau gwahanol a beth yw manteision neu anfanteision hyn.

Pam y gallai fod angen ailhyfforddi neu ailgymhwyso wrth symud i wlad arall (e.e., lefelau cymharol addysg, gwahaniaethau mewn diwylliant, seilwaith a safonau technegol)?

Pam fod rhai ysgolion yng Nghymru wedi dewis addysgu Bagloriaeth Cymru?

#### Sources.

Bruegel, Joža, *Memoirs* <<https://www.yumpu.com/en/document/read/5304881/joza-bruegel-memoirs-blueyonder-welcome-to-pwp>> [cyrchwyd 29 Gorffennaf 2022]

Kaplan, Marion A., ed., *Jewish Daily Life in Germany, 1618-1945*, (Oxford: Oxford University Press, 2005)

Kater, Michael H., 'Unresolved Questions of German Medicine and Medical History in the Past and Present', *Central European History*, 25 (1992), 407-23

*Refugees from National Socialism in Wales: Medical Services* <<https://wp-research.aber.ac.uk/nsrefugeeswales/history/life-for-refugees-in-wales/medical-services/>> [cyrchwyd 12 Gorffennaf 2022]

Zamet, John, *German and Austrian Refugee Dentists: The Response of the British Authorities 1933-1945*, PhD thesis (Oxford: Oxford Brookes University, 2007)  
<<https://radar.brookes.ac.uk/radar/items/e0d3e236-585a-4c8e-a61f-ee0830585b0a/1/>> [cyrchwyd 29 Gorffennaf 2022]

## Trawsgrifiad

### Josephine Bruegel ar ennill ei MD Tsiecoslofacia

Ac yna...mae'n rhaid mai mis Chwefror neu fis Mawrth oedd hi [1941], sefydlodd llywodraeth alltud Tsiec, a ddaeth o Ffrainc, ei hun yma, a gyda'r fyddin Tsiec daeth tua hanner cant o filwyr oedd yn yr un sefyllfa â mi – heb orffen eu hastudiaethau meddygol ond wedi gwneud y blynyddoedd clinigol, felly trefnwyd y gallent nhw a minnau orffen eu hastudiaethau yma. Felly, cawsom i gyd ein rhoi mewn prifysgolion amrywiol.

[...]

Ac yna daeth y sefyllfa ryfedd ... pa fath o radd i'w rhoi i ni. Roedd yn rhaid i'r radd hon fod yn werthfawr yn Tsiecoslofacia hefyd, oherwydd roedd pawb eisiau mynd yn ôl, ac nid oeddent eisiau wneud unrhyw un o'r arholiadau eto. Felly, yr hyn a ddigwyddodd oedd, bod Prifysgol Rhydychen wedi mabwysiadu Prifysgol Prâg, a gafodd ei chau, felly cefais y diploma hwn yn Rhydychen mewn mawr ogoniant. MD Tsiecoslofacia oedd ei enw.